

Pigion Bruce Drannoeth y Ffair

PLESER digymysg unwaith eto fu Ffair Lyfrau'r Bala, cyfle i gwrdeithasu a hel clecs â llyfroerigion eraill; a mawr ein diolch i'r Golygydd a'r swyddogion eraill a'i trefnodd hi. Peth braf yw mynd i dref lle mae pawb mewn caffin siarad Cymraeg da yn naturiol. Ni wn ba mor llwyddiannus fu'r syniad newydd o ymorol am ddfyrrwch i'r plantos: rhwng cynnal stonidin eich hun, a chael amser i fynd trwy lyfrau pawb arall, anodd ei dal hi ym mhob pen. Gwelaf bymtheg punt yn bris uchel braidd i fân gasglwyr fel myfi, sy'n ceisio cael gwared ar ei ddyblars yn bennaf: mae'n eithaf tâl i fasnachwyr llyfrau a chanddynt lyfrau prin a drudfawr, ond rhaid i hen bensynwr fel myfi werthu llawer iawn i dalu am y stonidin yn unig. Beth a feddyliwch chi?

Y tro hwn cefais i ac Ann y fraint o rannu stonidin gyda'r llenor Nesta Wyn Jones, gan haneru'r gost - dyna syniad ichi, ynié! Ganddi hi cefais rodd o drysor - sgrïpt *Cikwg yn Ôl*, cyfieithiad John Gwilym Jones o *Look Back in Anger* John Osborne. Nis cyhoeddwyd erioed, hyd y gwn, ac mae hynny'n wir am sawl peth arall o eiddo JGJ. Cof gennyf weld plant Ysgol Penygroes yn llwyfannu'n syfrdanol wych ei gyfieithiad o *The Admirable Crichton* J.M.Barrie, nas cyhoeddwyd. Rhyfedd oedd atyniad bywyd crachach Lloegr iddo: cofiaf hefyd Nesta ei hun yn chwarae rhan urddasol yng nghyfieithiad anghyhoedd JGJ o *The Cocktail Party* T.S.Eliot, yng Ngholeg y Gogledd, yn yr oes bell honno pan fyddai'r fath beth a Chymdeithas y Ddrama Gymraeg yma. Caf yr argraff, yn wir, nad oes yr un o ddramau gwreiddiol JGJ bellach mewn print, heb sôn am y cyfieithiadau.

* * *

Ar ôl oes o gasglu, mae'n syn gennyf o hyd weld llyfrau yn dod i'r fei nas gwelais erioed o'r blaen, na hyd yn oed glywed sôn amdanynt. Gan Mrs Eleri Morgan, yn y stonidin nesaf atom, prynais wahanlith o'r *Annales de Bretagne*, dan y teitl *Lettres Celtiques*, cyfieithiad Ffrangeg gan J.Loth o waith yr Athro Hugo Schuchardt, yn disgrifio ei ymweliadau yn 1875 â Chaernarfon a manau eraill. Am y Bala dywed: 'L'importance de Bala est d'ordre intellectuel ou plutôt religieux ... môt pied ne foulera jamais le sol d'une ville plus pieuse que Bala.' ('Deallusol neu'n hytrach crefyddol yw pwysigwydd y Bala ... ni fyddaf fyth eto'n troedio daear tref dduwiolach na'r Bala.') Mewn man arall, i geisio egluro sut beth yw'r gynghanedd, dyry'r enghreifftiau hyn yn Saesneg:

Ned Puw's visit to the London exhibition.

When Ned first landed in London - saw he
A sight quite uncommon:

A nice mule from Ynys Môn
A mermaid and a Mormon.

A nigger and a nugget - a lawyer
Lying on a pallet

And on view in a new net
A million of grey mullet.

A wild boy and an old bard - a fiddler
Fuddling with a drunkard,
A tinker with his tankard,
Ranking high from drinking hard.

Ni rydd inni enw'r awdur: tybed a wŷr rhywun ohonoch bwy ydoedd? Sylwer, tra bo englynion Cymraeg yn tueddu i fod yn brudd, ymddengys yn amhosibl creu englyn

Saesneg nad yw'n hollol chwerthinllyd a gwrthun.

Fe haeddai'r wahanlith hon yn unig ysgrif iddo'i hun rywbryd. Gan yr un wraig garedig cefais rodd - rhifyn 5, Gorffennaf 1994, o *Dalen, Llais Undeb Awduron Cymru*. Er mawr syndod im, cynhwysai ysgrif oleuedig iawn, o'm gwaith fy hun, ac a anghofiaswn yn llwyr, yn trafod pethau geiriadurol, dan y teitl 'Chwilio am yr union air'.

* * *


Caffaeliad arall fu llyfryn prin iawn, mi debygwn i, ac anhysbys imi cyn hyn, sef *The Private Devotions of the Welsh in Days Gone By*, (Lerpwl, I.Foulkes, 1898) o waith y Parch J.Fisher, Rhuthun - papur a ddarllenwyd i'r *Liverpool Welsh National Society*. Haeddai hwn hefyd lith iddo'i hun. Trafodir y gweddïau, y swynion a'r bendithion hynny a oedd ar dafod leferydd gwerin gwlad o'r Oesoedd Canol ymlaen, gan gynnwys y weddi ddiddorol Breuddwyd Mair - ceir ysgrif ar hon yn Llên a Llafar Môn. Sonia mai yn y Gogledd yn unig y cawsai fersiynau o'r weddi boblogaidd hon. Ai cywir tybio nad oedd ar wefusau Deheuwy'r? A wyddoch chi amgen? Yr oedd y Parch J.Fisher yn gryn ysgolhaig: ef a'r Parch. Sabine Baring-Gould a gyhoeddodd y gwaith gorchestol *The Lives of the British Saints* yn bedair cyfrol (Llundain 1907-13). Er mawr siom ni welaf ef yn y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*: mae'n sicr yn haeddu bod yno, a S.Baring-Gould yntau, a gyhoeddodd nifer o lyfrau ynghylch Cymru. A fuwyd erioed yn trafod gwaith y naill neu'r llall yn *Y Casglwr*?

* * *

O stonidin yr Hen Bost cefais lyfryn bach disylw ond del: *Chwedl Gymreig: Yr Eneth Amddifad*, sef, *Gofal Duw yn ei Ragluniaeth am yr Amddifad*, gan John Jones, Tabernacl. *Buddugol yn Eisteddfod y Llechwedd 1879*. (Blaenau Ffestiniog, 1880). Nofelig sentimental a dagreul ddigon, yn terfynu'n ddedwydd yw hi. Ei diddordeb pennaf yw ei bod yn ychwanegiad i'm casgliad sylweddol o gynnyrch gweisg a llenorion 'Stiniog. Ni wn ba bryd y darfu am eisteddfodau'r chwareli; gwn y chwalwyd capel Tabernacl chwarter canrif yn ôl, ac nid oes ond lle y bu. (Clywais nad oes ond un gweinidog ac un offeiriad ar ôl yn y dref bellach.) Dywed yr awdur iddo betruso cyn ei chyhoeddi 'oherwydd fod y dull hwn o ysgrifennu yn gyfryw ag y teimla llawer o bobl dda, y rhai y mae gennyf lawer o barch i'w barn, wrthwynebiad cryf iddo'. Ond meddyliwch, mewn difrif, am adeg pan yr oedd yn werth i enillydd mewn eisteddfod chwarel fentro cyhoeddi ei waith o gwbl! Heddiw nid oes yr un wasg na chyhoeddwr ar ôl yn y Blaenau, na'r un eisteddfod.

* * *

Euthum ers blwyddyn neu ddwy i ymddiddori fwyfwy mewn rhwymo llyfrau ac yn sgil hynny, mewn rhwymadau cain. Yn stonidin Siop y Morfa, treuais ar un o lyfrau'r Golden Cockerel Press, sef *In Defence of Woman* by *Wiliam Cynwal*. A *Welsh poem translated by Gwyn Williams*. (d.d. (1953)). Ni rydd y cyfieithydd enw gwreiddiol y gerdd, a holais yr Athro G.A.Williams, Aberystwyth yn ei chylch. Dywed ef y cyhoeddwyd y gerdd yn *Canu*



Rhydd Cynnar T.H.Parry-Williams (llyfr prin drybeilig) dan y teitl 'Ateb i Araith Ddychan y Gwagedd'. Ni chyhoeddwyd honno erioed, hyd y gwyyddys, ac ansicr, medd yr Athro, yw enw ei hawdur: priodolir hi weithiau i Sion Tudur, i'r Athro Adda Fras o Wynedd, i ryw Maredudd y Poet Mantuan(!) neu i ryw Athro Wmbar (!). Godidowgrwydd y gyfrol yw engrafiadau lliwgar John Petts, yn darlunio'r Forwyn Fair a gwagedd eraill mwy nwydus yr olwg, megis Proserpina. Ni allwn faddau i'r cyfle, a dyma wario £75, mwy na hynny o elw a wnaethwn y dwthwn hwnnw. Un yw o bum can copi a argraffwyd; ond er prinned y gyfrol, tybed sawl copi sydd ar gael o'r nofel fach ddisylw o'r Blaenau? A oedd £4 yn ormod o bris arni? Tybed nad yw hi bellach yn brinnach na'r llall? Am resymau gwahanol, yr oeddwn yr un mor falch o'i chael hi ag yr oeddwn o gael y gyfrol ddrutach, gainach ei gwedd.

Y Diweddar

DEWI ROBERTS

Plas ym Mhowys, Treuddyn

Er cof annwyl am un a oedd wrth ei fodd yn darllen *Y Casglwr*, sef Dewi Roberts, Plas ym Mhowys, Treuddyn, Sir y Fflint - hanesydd lleol a gwladwr diwylliedig, a fu farw ar 20 Awst 2003, yn 79 mlwydd oed, oddi wrth ei deulu.

Enaid gwâr a brogarwr - un difyr
A dyfal ymchwiliwr,
Yn ddyd swil, yn ddawnus i'r
O naw gwir gymwynaswr.

Treiddiodd i hanes Treuddyn - dilynodd
Hyd llinach pob tyddyn
I adael i'r oes wedyn
Hanes llu o deulu dyn.

ALED LLOYD DAVIES

Dymuna'r Golygydd ddiolch ar ran Cymdeithas Bob Owen, am y rhodd anghydeddus o £50 er cof am y Diweddar Dewi Roberts.